

# Archwilio Strydoedd



## Sut mae strydoedd yn cael eu henwau?




- Mae strydoedd fel arfer yn cael eu henwi gan y cyngor lleol wrth iddyn nhw gael eu hadeiladu.

- Pan mae stad newydd yn cael ei hadeiladu, mae strydoedd yn aml yn cael eu henwi ar themâu fel coed, cymeriadau hanesyddol neu bersonoliaethau o fyd chwaraeon.

- Weithiau mae stryd arbennig yn cael ei henwi i anrhydeddu digwyddiad arbennig neu berson enwog o'r ardal.







## Sut mae dysgu rhagor am enwau strydoedd?

- Dechreuwch trwy feddwl am enw'r stryd. Ydy hi wedi ei henwi ar ôl person neu ddigwyddiad (ee 'Rhodfa Nelson Mandela' neu a ydy hi'n enw rhywbeth cyffredin fel coeden neu aderyn (ee 'Coedlan y Gwenoliaid' neu 'Heol y Llwyfen')?

- Beth am y strydoedd cyfagos – oes patrwm i'w henwau nhw?

- Os ydy hi wedi ei henwi ar ôl rhywbeth arbennig, gofynnwch i bobl sy'n byw yn y stryd ydyn nhw'n gwybod sut y cafodd ei henw?





- Cysylltwch â'ch Adran Gynllunio leol a gofyn iddyn nhw am yr enw.

- Os mai enw llawn rhywun ydy hwn, ceisiwch chwilio amdano ar y rhyngrwyd.*




* Peidiwch byth â defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio heb ddweud wrth oedolyn beth rydych yn mynd i'w wneud.

© BBC




Louis Riviere oedd yr arweinydd yn y theatr glan môr hon. Mae'r stryd lle roedd yn byw bellach wedi ei henwi ar ei ôl.




Mae'r strydoedd yma wedi eu henwi ar ôl brwydrau a ymladdwyd gan y Fyddin Brydeinig.



Beth ydy'r thema?







Mae'r enw'n dweud wrthoch chi i ble mae'r ffordd yn arwain!






Mae'r rhain wedi eu henwi ar ôl merched yr adeiladwr!

© BBC